Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Llun, 15 Mai 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P Downing | M W Locke | C L Philpott |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: J P Curtice, V A Holland, S Joy, P Lloyd a B J Rowlands

---

## 48 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 49 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**50 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am ganiatáu Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - GSL**

Nododd y Cyfreithiwr Cyswllt y derbyniwyd cais i ohirio'r mater ymhellach.

Manylodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, ar y manylion cefndir o ran y cais am ohiriad.

Nodwyd y rhoddwyd pob cyfle i GSL gyfarwyddo cynrychiolydd cyfreithiol ac iddo fynychu trwy amrywiaeth o ddulliau ers y cais gwreiddiol am ohiriad ar 14 Ebrill 2023.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â GSL ar y cyd â'r Arweinydd Tîm, Trwyddedu.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd:**

1) Gwrthod y cais am ohiriad pellach o'r mater.
2) Gwrthod cais GSL am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gwrthododd yr aelodau'r cais i roi Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat oherwydd na allant weld unrhyw resymau cyfiawnadwy i beidio â glynu wrth yr arweiniad priodoldeb oherwydd bod gan GSL euogfarnau perthnasol ac felly, penderfynwyd nad yw GSL yn berson addas a phriodol i ddal trwydded o'r fath.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.59am

**Cadeirydd**